**GORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (LLEOEDD PARCIO ODDI AR Y STRYD) (CYDGRYNHOI) 2024 GORCHYMYN DIWYGIO (RHIF 1) 202--**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor"), yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer ei bwerau o dan Adrannau 32, 35 a Rhan IV o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("Y Ddeddf") a'r Ddeddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 o'r Ddeddf yn amrywio Gorchymyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Lleoedd Parcio Oddi Ar y Stryd) (Cydgrynhoi) 2024, ("Gorchymyn 2024"), a fydd yn cau maes parcio De Hillsboro Place, Porthcawl, yn barhaol.

Mae safle'r maes parcio wedi'i glustnodi fel ardal gyhoeddus, ac felly cynigir cau'r maes parcio hwn yn barhaol er mwyn hwyluso'r gwaith o weithredu'r ardal gyhoeddus.

Gellir archwilio copi o'r Gorchymyn arfaethedig ynghyd â datganiad o resymau'r Cyngor dros wneud y Gorchymyn, yn y Swyddfeydd Dinesig yn y cyfeiriad isod rhwng 8.30am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Iau a rhwng 8.30am a 4.30pm ar ddydd Gwener neu maent ar gael ar-lein yn:
https://www.penybontarogwr.gov.uk/cyngor/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/.
https://www.bridgend.gov.uk/council/legal-notices-and-orders/
neu drwy e-bostio parking@bridgend.gov.uk neu fel arall o Lyfrgell Porthcawl, Plas yr Eglwys, Porthcawl, CF36 3AG rhwng yr oriau canlynol: Dydd Llun 9.30am - 1pm a 2pm - 6pm, Dydd Mawrth 9.30am -1pm a 2pm - 6pm, Dydd Mercher 9.30am - 1pm, Dydd Iau 9.30am - 1pm a 2pm - 8pm, Dydd Gwener 9.30am - 1pm a 2pm - 5pm, Dydd Sadwrn 9.30am - 1pm a 2pm - 5pm.

Rhaid anfon gwrthwynebiadau i'r cynnig, ynghyd â'r seiliau y cânt eu gwneud, yn ysgrifenedig at y person sydd wedi llofnodi isod i'r cyfeiriad isod erbyn y **16/04/2026**. Os byddwch yn cael anhawster wrth ymateb yn ysgrifenedig, neu os oes angen yr hysbysiad hwn arnoch mewn fformat arall, megis print mwy, sain, braille neu ffacs, cysylltwch â'r Adran Gyfreithiol yn y cyfeiriad isod neu drwy ffonio'r Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 01656 643643. Sylwer y gall y Cyngor ystyried yr holl sylwadau sy'n dod i law yn gyhoeddus ac y gallai sylwedd unrhyw sylw (ynghyd ag enw a chyfeiriad y person sy'n ei wneud) fod ar gael i'w harchwilio'n gyhoeddus. Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

**Dyddiedig: 19/03/2026**

K Watson, Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB.
K Watson, Chief Officer Legal and Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy – Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB.